

Cymeradwywyd Cynllun yr Iaith Gymraeg Tai Wales & West (WWH) ym mis Medi 2010 gan y Bwrdd ac yn dilyn hyn, fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG) ym mis Rhagfyr 2010.

Mae gofyn cyflwyno diweddariad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg (CyG), a ddisodlodd ByIG yn 2012. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

Sgiliau Cymraeg

Ar hyn o bryd, mae gan WWH 146 o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar lefelau amrywiol o ran rhuglder, ac mae'r Gymraeg yn famiaith dros 50 aelod o staff.

Mae'r holl staff wedi cwblhau hunanasesiad o lefel eu rhuglder yn y Gymraeg, o ran eu sgiliau ysgrifenedig a llafar. Cofnodir lefelau rhuglder cyflogeion newydd fel rhan o'u harchwiliadau cyn sicrhau cyflogaeth. Cofnodwyd sgiliau llafar ac ysgrifenedig ar wahân yn system AD y Gymdeithas, Cascade. Trwy gasglu'r data mewn porth canolog, gall staff ddiweddarau eu lefelau rhuglder wrth iddynt newid. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo wrth adnabod staff sy'n hyderus neu sy'n gallu cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol megis cyfieithu neu ddehongli.

Yn ogystal, mae gan sawl aelod o'r Bwrdd sgiliau Cymraeg y mae eu lefel yn amrywio.

Hyfforddiant Cymraeg

Mae 22 aelod o staff wedi bod yn dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae pump o'r staff hyn wedi bod yn mynychu dosbarthiadau nos ac mae'r staff sy'n weddill yn parhau i fanteisio ar adnoddau amrywiol gan gynnwys y cynllun peilot chwe mis gyda "Say Something in Welsh", mynychu cyrsiau dwys a defnyddio apiau a llyfrau.

Mae nifer o aelodau'r Bwrdd yn dysgu Cymraeg hefyd, trwy gyfrwng cymysgedd o ddosbarthiadau, apiau a chyfryngau eraill ac mae dau aelod o'r Bwrdd wedi cofrestru ar gynllun peilot 'Say Something in Welsh'. Hysbyswyd yr holl aelodau y bydd WWH yn eu cynorthwyo i ddysgu Cymraeg.

Mae WWH yn cynorthwyo dysgu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn ogystal â pharhau ymrwymiad y Gymdeithas i gynorthwyo dysgwyr mewn amgylchedd traddodiadol, mae 21 o ddysgwyr presennol a newydd wedi ymuno â'r cynllun peilot chwe mis gyda 'Say Something in Welsh'. Cwrs iaith ar-lein yw hwn sy'n addo y bydd yr holl ddysgwyr ymroddedig yn siaradwyr Cymraeg hyderus ymhen chwe mis wrth iddynt gwblhau tasgau ar-lein wythnosol a chymryd rhan mewn galwadau fideo grŵp. Cychwynnodd y prosiect peilot ym mis Awst 2018 ac fe'i ariannwyd gan WWH. Bu'r adborth cychwynnol am y cwrs yn gadarnhaol a nododd mwyafrif y dysgwyr bod y dull dysgu yn addas i'r arddull ddysgu y maent yn ei ffafrio. Roedd ymatebwyr a

gwblhaodd hunanasesiad o lefel eu hyder gyda'r Gymraeg cyn cychwyn ac yn ystod y cyfnod dysgu, wedi adrodd am gynnydd sylweddol yn lefel eu hyder.

Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, cwblhawyd adolygiad o'r adran Gymraeg bresennol ar fewnrwyd y staff. Rhoddwyd safle amlwg i deilsen 'Dysgu Cymraeg' ar y fewnrwyd ac ar ôl troi ato, mae'n darparu manylion yr holl gyfleoedd dysgu sydd ar gael gan gynnwys gwybodaeth am gynllun peilot newydd 'Say something in Welsh'. Yn ogystal, mae'n darparu manylion yr holl siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas sy'n cynorthwyo gyda mentora anffurfiol, adnoddau defnyddiol, gweithgareddau a chyfleoedd i gynorthwyo a chynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Yn ystod y cyfnod hyrwyddwyd y Gymraeg ar sawl achlysur gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi, ciniawau Cymraeg i gefnogi "Ras yr Iaith" a diwrnod "Shwmae Su'mae – digwyddiad cenedlaethol ar draws Cymru i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Diwrnod gwisgo dillad anffurfiol ar sail y thema coch
- Cwis Dydd Gŵyl Dewi
- Posteri sy'n dangos ffeithiau a gwybodaeth am draddodiadau a hanes Cymru
- Cyhoeddi rhestr o'r rhai sy'n siarad Cymraeg
- Annog y staff i roi cynnig ar rai ymadroddion gydag ymadrodd yr wythnos
- Sleidiau PowerPoint dwyieithog yn ystod cynhadledd a sioeau teithiol y staff
- Cyfrifon ac adroddiad blynyddol dwyieithog
- Cynllun busnes dwyieithog
- Sleidiau a rhaglen ddwyieithog yn ystod gwobrau MAD
- Negeseuon trydar dwyieithog
- Gwefan ddwyieithog

Mae mentrau eraill i hyrwyddo'r Gymraeg yn cynnwys:

- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg trwy ddefnyddio brand Iaith Gwaith sy'n dynodi'r rhai sy'n siarad Cymraeg. Caiff y troednodyn mewn negeseuon e-bost sy'n dangos y croesawir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ei gynnwys yn negeseuon e-bost allanol y rhai sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, cynigir bathodynau a llinynnau Iaith Gwaith i'r holl staff sy'n dysgu neu sy'n rhugl, fel y gellir eu hadnabod a fel bod modd i bobl arall gychwyn sgwrs gyda nhw yn Gymraeg.
- Deunydd briffio dwyieithog gan y P S G, sy'n cynnig diweddariadau o bryd i'w gilydd am ddatblygiadau a datblygiadau deddfwriaethol y gallent effeithio ar y ffordd y mae'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau yn fewnol ac yn allanol.
- Cynhyrchir fersiwn dwyieithog o'r cylchgrawn i breswylwyr, InTouch, ac fe'i ddosbarthir i'r holl breswylwyr yng ngorllewin Cymru ac i breswylwyr eraill sy'n siarad Cymraeg ar draws gweddill Cymru.

- Noddi ysgol i fynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018.
- Adolygiad o'r cynnwys sydd yn Gymraeg yn y rhaglen ymsefydlu corfforaethol, y mae bellach yn cynnwys cyfeiriadau at yr Iaith Gymraeg yn ystod y sesiynau ymsefydlu dau ddiwrnod.

Cyfathrebu yn Gymraeg

Mae 78 o breswylwyr wedi nodi eu bod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg gyda WWH ac maent wedi nodi eu dewisiadau mewn perthynas â deunydd ysgrifenedig, ar lafar neu'r ddau.

Mae WWH yn parhau i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â dewis iaith fel rhan o weithgarwch proffilio preswylwyr. Ar hyn o bryd, mae WWH yn dal 71% o'r data ynghylch dewis iaith preswylwyr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cysylltwyd â'r holl breswylwyr yng ngorllewin Cymru, naill ai'n bersonol neu drwy'r post. Roedd un o bob tair aelwyd wedi ymateb a chofnodwyd y wybodaeth. Bydd datblygu a chyflwyno ap gweithio symudol (Resco) sy'n galluogi swyddogion i weithio all-lein yn cynorthwyo wrth gasglu gwybodaeth ar draws y Gymdeithas yn y dyfodol. Mae data a gasglwyd ynghylch dewis cael deunydd ysgrifenedig a chyfathrebu llafar yn Gymraeg ar gael i'r holl staff ei weld yng nghronfa ddata Dynamics ac yn system adrodd mewnol Qlikview. Bydd unrhyw ddeunydd cyfathrebu a anfonir gan WWH yn newis iaith y preswlydd (pan fo holiadur proffilio preswlydd wedi cael ei gwblhau, neu pan gasglwyd manylion ynghylch dewis iaith), ac eithrio gohebiaeth yn y gorllewin, y mae'n parhau i fod yn ddwyieithog, a bydd hyn yn parhau nes y caiff gwybodaeth lawn ei sicrhau am ddewis iaith y preswylwyr hyn. Yn rhifyn y gwanwyn 2019 o InTouch, anogwyd y preswylwyr i gysylltu â WWH pe byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth yn Gymraeg.

Mae WWH yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Er bod y niferoedd sydd wedi manteisio ar y ddarpariaeth hon trwy brif rif cyswllt WWH (0800 052 2526) wedi bod yn isel iawn yn hanesyddol, mae'r niferoedd wedi cynyddu ers dargyfeirio llinell ffôn swyddfa'r gorllewin i brif linell ffôn WWH ym mis Gorffennaf. Yn ystod oriau swyddfa, caiff yr holl alwadau a wneir gan y rhai sy'n gwneud y dewis Cymraeg eu dargyfeirio i'r rhai y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn swyddfa gorllewin Cymru a'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid. Pan fydd rhywun yn ffonio prif rif ffôn WWH, bydd y neges gyntaf yn ddwyieithog ac yn gofyn i'r sawl sy'n ffonio bwysu botwm dau os ydynt yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu bwysu botwm un am y Saesneg. Hon yw'r ail flwyddyn lawn o ddata ers sefydlu'r trefniant hwn ym mis Gorffennaf 2017 ac yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, roedd cyfanswm y galwadau y deliwyd â nhw trwy gyfrwng y dewis Cymraeg wedi codi o 1,498, yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, i 1,766 rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Mae'r galwadau Cymraeg hyn yn cynrychioli 1.4% o'r holl alwadau a wnaethpwyd yn ystod oriau swyddfa yn ystod y cyfnod, sydd yr union yr un fath â'r sefyllfa yn 2017-18.

Mae WWH yn manteisio ar wasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol, yn ogystal â staff dynodedig. Adolygwyd y broses gyfieithu hefyd ar ôl cyhoeddi dogfen gynghori CyG, 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd'. O ganlyniad i'r adolygiad, caiff ceisiadau am waith cyfieithu eu gwneud trwy neges e-bost ddynodedig nawr er mwyn sicrhau y darparir gwasanaeth mewn ffordd amserol. Trwy gael aelodau penodol o staff yn gyfrifol am y gwasanaeth cyfieithu, mae modd cofnodi testun sydd eisoes wedi cael ei gyfieithu. Bydd hyn yn cynorthwyo i atal dyblygu gwaith cyfieithu a chaiff diwygiadau i ddarnau testun byr eu gwneud yn fewnol. Mae'r broses gyfieithu newydd wedi cael ei chyfleu yn neunydd briffio PWG ac mae ar gael ar fewnrwyd y staff.

Ar hyn o bryd, mae 1,121 o breswylwyr ar y rhestr bostio er mwyn cael copïau dwyieithog o InTouch. Mae InTouch ar gael yn Gymraeg ar wefan WWH hefyd.

Mae'r adolygiad o wefan WWH bellach wedi cael ei gwblhau, ac mae'n hollol ddwyieithog ac yn addas at ddefnydd dyfeisiau symudol. Ers i'r wefan ddwyieithog ddod yn fyw ar 18 Medi 2018, mae wedi cael ei gweld gan ymwelwyr allanol yn Saesneg 257,190 gwaith ac yn Gymraeg 1,636 gwaith, ac mae 73 defnyddiwr wedi troi at y wefan trwy borwr gwe Cymraeg. Mae dogfen Cynllun yr Iaith Gymraeg ac adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan. I gyd-fynd â'r wefan, lansiodd WWH dudalen Facebook i rannu newyddion a manylion swyddi a chyfrif Instagram er mwyn amlygu ein datblygiadau. Mae'r sianelau cyfryngau cymdeithasol newydd hyn yn eistedd wrth ymyl y cyfrif Twitter presennol, ac maent yn ddwyieithog hefyd.

Ail-ddyluniwyd deunydd briffio misol PWG ym mis Medi 2018. Seiliwyd y ffurf ar ei newydd wedd ar dechnoleg bresennol, ac mae modd ei weld yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol amdano. Mae canran y staff sy'n troi at y fersiwn Cymraeg yn amrywio bob mis, o 0.3% i 12.5%. Yn ystod mis Mawrth 2019, roedd 1.9% (chwech allan o 309) o staff wedi troi at y fersiwn Cymraeg.

Er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n galw i mewn yn y dair swyddfa yn ymwybodol o'r ffaith y gallant ddewis cyfathrebu yn Gymraeg, dangosir posteri ym mhob derbynfa yn nodi hyn.

Mae'r protocolau mewnol ac allanol am y Gymraeg wedi bod mewn grym er mis Medi 2017. Mae'r protocolau, sydd ar gael ar fewnrwyd y staff, yn cynnig arweiniad am y ffordd y mae WWH yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn fewnol ac yn allanol. Roedd y protocolau'n adolygu'r holl arferion mewnol ac allanol, gan gynnwys archwiliad sgiliau a dewis iaith, recriwtio, dogfennaeth sy'n gysylltiedig ag AD a gweithdrefnau. Mae'r protocolau'n datblygu Cynllun yr Iaith a Gymraeg a gymeradwywyd, a gwneir mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol. Mae'r holl arwyddion yn swyddfeydd WWH yn ddwyieithog.

Yn dilyn adolygiad o'r arweiniad a'r rhestr gyfeirio hunan-reoleiddio a gyhoeddwyd gan CyG, mae nifer y swyddi newydd a gwag yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael ei chynnwys yn niweddariad blynyddol 2019. Yn ystod 2018-19, hysbysebwyd 88 o

swyddi gwag neu newydd, a hysbysebwyd y rhain oll yn ddwyieithog. Roedd pob un yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ym mhroffil y rolau ac nid oedd unrhyw rôl yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys gofyniad penodol am sgiliau Cymraeg.

Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod.